



Crash

@ebol

Sera Moore Williams

Crash

gan

Sera Moore Williams

Cydnabyddiaethau

Hawlfraint y ddrama © Sera Moore Williams 2009

Hawlfraint y cyhoeddiad © Atebol Cyfyngedig 2009

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i storio mewn system adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull, na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, peirianyddol, llungopïo nac mewn unrhyw ffordd arall mewn meintiau anghyfyngedig, na'i werthu i eraill, heb ganiatâd y cyhoeddwr.

Am ganiatâd i ddefnyddio'r addasiad mewn unrhyw fodd arall ar wahân i'r hyn a nodwyd uchod, gan gynnwys ei berfformio'n gyhoeddus, dylid gwneud cais ysgrifenedig i Adran Adnoddau Addysgu a Dysgu CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX, yn y lle cyntaf.

Cyhoeddwyd yn 2009 gan Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ

www.atebol.com

Dyluniwyd gan Stiwdio Ceri Jones, stiwdio@ceri-talybont.com

Llun y clawr gan Andy Freeman

Argraffwyd gan Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Comisiynwyd y ddrama yn wreiddiol gan Gwmni Theatr Arad Goch yn 2004.

Cast gwreiddiol

Elin: Rhiannon Morgan

Wes: Dafydd Rhys Evans

Rhys: Rhys ap Iefor

Cerddor: Owain Llŷr Edwards

Cyfarwyddwr

Sera Moore Williams

Cynllunydd

Andy Freeman

Rheolwr Llwyfan

Llŷr Jones

ISBN 978-1-907004-16-2

LLEOLIAD

Mae pob golygfa'n cael ei hactio mewn man chwarae moel. I awgrymu newid
lleoliad yn ystod y ddrama, does dim angen mwy na mymryn o newidiadau i'r celfi,
y gwisgoedd a'r dodrefn.

Mae'r cerddor yn troi'n droellwr ar gyfer golygfa'r disgo.

CYMERIADAU

RHYS: Bachgen sy bron yn 16 oed. Cydwybodol. O deulu cefnogol. Ddim yn denau. Ffrind da i Elin.

ELS (ELIN): Merch sy bron yn 16 oed. O deulu cefnogol.

WES: Bachgen o gefndir anodd, sy bron yn 16 oed.

CERDDORIAETH.

SWN GWYNT YN Y PELLTER.

MAE WES YN CYSGU AR LAW'R FFLAT-UN-YSTAFELL STEVE. MAE ELIN YN EISTEDD MEWN CORNEL, LLE BU HI'N CYSGU. MAE DILLAD WES AC ELIN YN EDRYCH YN ANNIBEN OFNADWY. MAE ELIN YN SYLLU AR WES AM SBEL CYN EI YSGWYD YN OFALUS I'W DDEFFRO. MAE'N DEFFRO MEWN BRAW, GAN DDYCHRYN ELIN.

(hangover)
MAE SALWCH BORE DRANNOETH YN EFFEITHIO'N GRYF ARNO.

WES: Crap! Crap! Ble ydw i?

ELS: Wes! *Calm down.*
(MAE HI'N EI GUSANU) Crashest ti.

WES: Ble ydw i?

ELS: Crashest ti.

WES: (MEWN BRAW) Beth?

ELS: Crashest ti.

WES: Ble? - *panic*

ELS: Fan hyn!

WES: (YN FALCH O DDEALL MAI WEDI CYSGU Y MAE HI'N EI FEDDWL) O! O! OK!

ELS: Wyt ti'n OK?

WES: (YN ANSICR) *Yeah.* (YN CYFFWRDD Â'I BEN) Awtsh!
(CURIAD) Ble mae pawb?
saib

ELS: Wedi mynd!

*- salach
bore dawnsedd*

WES: (MEWN POEN) W!

SAIB.

ELS:

Tawel!

WES:

Beth?

ELS:

Nag yw hi?

WES:

Yn dy ben di falle!

ELS:

Dim ond ti a fi!

WES:

(HEB WRANDO) Yeah.

ELS:

Neb yn haslo.

SAIB.

WES:

Pryd a'th pawb?

ELS:

Hwyr. 'Nôl i dŷ Ben.

WES:

(YN SYNNU) Ben?

ELS:

Yeah.

WES:

(YN DDRESLYD) Ble y'n ni 'te?

ELS:

(GAN WENU) Wes! Lle Steve.

WES:

O! OK! (CURIAD) Arhosest ti?

ELS:

Do.

WES:

(YN BYWIOGI) Serious? Ac?

ELS:

Beth?

WES: Ti a fi?

sylweddoli beth mae WES yn golygu

ELS: *I don't think so!* Fan hyn? (CURIAD) Ac eniwe, do't ti ddim rili mewn cyflwr o't ti? (CURIAD) Sa i isie iddo fe fod fel 'na!

SAIB.

*↑
nyw - tro gyntaf*

WES: So beth am Mami a Dadi? *← pwybleisio'n plentyn*

ELS: Wedes i bo fi'n aros 'da Sara.

WES: Celwydd!

ELS: Bach! Wi'm yn gwneud dim drwg i neb ydw i?

SAIB.

WES: O's arian 'da ti?

ELS: Digon am gan o *Coke*.

WES: Dau *Coke*?

ELS: Falle.

WES: Dere 'mlaen 'te.

MAE WES YN SYLWI AR GYFLWR EI DDILLAD.

ELS: Cŵl. Rhywle tawel *though*. Rhywle lle gallwn ni weld y môr.
Takeaway falle? Craig yr Wylan?

WES: Holl ffordd lan i ben y graig? O na! O's raid? Eto?

ELS: (YN FREUDDWYDIOL) Bydd tonnau heddi.

WES: *So?*

ELS: Tonnau mawr.

WES: O's arian 'da ti am rôl? Fi'n starfo!

ELS: Gwynt rili cryf! Ti'n 'i glywed e?

✓ drol allan o'i ffyls beiddhysol

WES: (YN SYLWEDDOLI BOD EI DROWSUS YN WLYB) Ych! Be sy'n bod ar y jîns hyn? Ma' rhain yn steecs! Crap! (YN AMAU'R GWAETHAF!) O! Plîs *God* dwed bo fi ddim wedi ...

ELS: (YN CHWERTHIN) Na!

WES: Wél shwt ...

ELS: Achub fi!

WES: Beth?

ELS: Neithiwr.

WES: (YN DDRYSLYD) *Yeah?*

ELS: O'r môr.

WES: (MEWN BRAW) *Whoah! No way!*

ELS: Nag 'yt ti'n cofio?

WES: (YN YMDRECHU I GOFIO) Yyym ...

ELS: Ar y ffordd adre. Achubest ti fi!

WES: Ti'n siŵr?

ELS: Eitha siŵr!

WES: Cŵl! (CURIAD) Crap! Ble ma'n ffôn i?

ELS: Da'th pysgodyn mawr heibio a'i fwyta fe!

*→ sarcastic
- defnyddio'r dchrylo i
nugymu bod y pysgodyn
wedi bwyta'r ffôn*

WES: Beth?

ELS: Yn bag fi Wes! (*Torr is jôwe*)

WES: E? (YN DEALL) O ife? (YN ESTYN AM EI FFÔN)

(AM Y FFÔN) *Life-line.*

ELS: (AM Y BAG) Gadewais i fe wrth y tân. (MAE WES YN EDRYCH YN DDIFYNEGIANT.) Bag! Nag 'yt ti'n cofio'r tân?

WES: Na. Ddim rili! *teimlo'n flin am Wes*

ELS: (YN GRESYNU) Wes!

(*Pity*)
MAE WES YN RHOI'R FFÔN YN EI BOCED, AC YN DECHRAU GWISGO'I ESGIDIAU.

WES: (AM YR ESGIDIAU) O ych! Gwlyb!

ELS: Cofia, fyddet ti ddim wedi gorfod bod yn arwr ...

WES: (AM EI ESGIDIAU) Sdim pâr arall 'da fi!

ELS: ... 'set ti ddim wedi gwithio fi i mewn!

WES: (WEDI DYCHRYN) *No way!*

ELS: Pam wnest ti 'na?

WES: Wi'm yn siŵr!

ELS: *Off* y creigie!

WES: Crap! Sori! O't ti'n grac?

ELS: Na.

WES: Na? (CURIAD) Ti'n gallu nofio?

ELS: Ydw. Ond ddim pan dwi'n feddw!

WES: (WEDI SYNNU) O't ti'n feddw?

MAE ELS YN CYDNABOD EI BOD HI.

(CURIAD) Dwi ddim yn gallu.

ELS: (WEDI SYNNU) Beth? Nofio?

WES: Ddim hyd yn o'd pan dwi'n sobor. Sorri!

ELS: Ti'm yn gall! Jwmpest ti i mewn ar fy ôl i!

MAE'R DDAU YN CHWERTHIN.

WES: Ni'n lwcus i fod yn fyw!

SAIB.

So, eniwe, nawr bo ti'n gwbod am *the evils of vodka* (YN CLOSIO AT ELIN) beth wyt ti'n mynd i drio nesa?

MAE WES YN EI CHUSANU, OND MAE HI'N EI RWYSTRO.

ELS: (CURIAD) (YN OSGOI ATEB) Wnes i ddim yfed lot.

SAIB.

Shwt deimlad yw e, sgwn i?

*bach yn
freuddwydiol*

WES: Beth?

ELS: Boddi.

WES: Gwlyb!

ELS: *Funny!* (YN FREUDDWYDIOL) Y dŵr yn gynnes o dy amgylch di.

WES: Crap.

ELS: (YN FREUDDWYDIOL) Tawel. Heddychlon. ^{Eisiau} ^{Dianc}

WES: Ti'n gwneud iddo fe swnio fel bàth! Byddet ti'n rhewi cyn iti foddi rownd ffordd hyn. A fydde fe ddim yn heddychlon achos bydde dy ddannedd di'n tsiatran! Yn rili uchel!

ELS: Byddwn i'n hoffi byw o dan y môr. Fyddet ti? Môr-forwyn. 'Na beth hoffwn i fod.

WES: Beth?

ELS: Fyddet ti'n hoffi?

WES: *Half man half kipper? I don't think so.*

ELS: Wel beth wyt ti isie bod?

WES: *International drug dealer!*

ELS: *No way!* (CURIAD) Byddwn i'n hoffi gweld un, fyddet ti?

WES: *Drug dealer?* Nawr? *Too right!*

ELS: Ca' dy ben! Môr-forwyn! Dwi'n siŵr eu bod nhw i'w ca'l.

WES: *Nutter!*

SAIB.

Shwt 'dyw *mermaids* ddim yn boddï?

ELS: Beth?

WES: Wel ma'r rhan ucha' 'run peth â ni nag yw e? (YN CYFEIRIO AT FRONNAU ELIN) Heblaw bo 'da nhw ... mwy na rhai ohonon ni!

ELS: Hoi!

WES: O's *lungs* mwy 'da nhw 'fyd?

ELS: Y môr yw eu cynefin nhw. Y lle perffaith ar eu cyfer nhw. Maen nhw'n perthyn. 'Na pam nag y'n nhw'n boddi.

WES: *Deep!*

ELS: O ca' dy ben Wesley!

WES: *What?*

SAIB.

ELS: Fi ddim yn perthyn. *Anhapus*

WES: Fan hyn?

ELS: Nage. Gatre.

WES: *Join the club.*

ELS: Fi byth yn mynd i allu plesio Mam a Dad.

WES: Fi ddim yn boddran trio. Stwffo nhw.

ELS: Mae 'na'n hawdd i ti ddweud.

WES: Pam?

ELS: Ti'n lwcus. *Cenfigen*

WES: Fi?

ELS: Ti ddim yn byw 'da dy rieni wyt ti?

WES: Na.

ELS: Does neb 'da ti i'w siomi felly o's e? Ti'n rhydd.

WES: Rhydd? Fi?

ELS: Ca'l gwneud fel ti isie, nag wyt ti?
SAIB.

WES: (AR DRYWYDD ARALL) *So* ro'n i'n arwr neithiwr *yeah?*

ELS: *Yeah! Sort of.* (CURIAD) *So?*

WES: (YN AWGRYMOG) *So!* Nag yw arwr yn haeddu gwobr?

ELS: (YN PRYFOCIO) Fel beth?

WES: (GAN NESU ATI) Yyyym...

ELS: (YN FFLYRTIO) Medal?

WES: (YN FFLYRTIO) Na!

ELS: Beth *then?* (YN CHWAREUS) O! (YN PRYFOCIO) OK! Dere 'ma.
(YN EI OGLAIS) Hyn? Ife? Ife?!

WES: (YN CEISIO DIANC) Na! (YN CHWERTHIN) *Get off! Get off*
wnei di!

ELS: Ych! Ti'n damp!

WES: A ti!

ELS: Ry'n ni MOR debyg.

WES: Beth?

ELS: Ti a fi.

WES: Ti'n meddwl? Cŵl!

ELS: Ni yn erbyn y byd yndyfe?

WES: *Yeah*, os ti isie.

ELS: Fy arwr.

WES: *Yeah?* (CURIAD) (YN CHWARAE) *Is it a man?*

ELS: (YN YMUNO YN Y GÊM) *Is it a bird?*

ELS/WES: *No! It's ... Super Wes!*

WES: *Super Wes! 'Da super powers!* (YN EI CHODI A'I CHWYRLÏO O GWMPAS TRA'N ESGUS HEDFAN) *Hei, come on. Dere. Hedfana 'da fi. Lan lan lan.*

ELS: Nes bod pawb arall yn fach fach fach.

WES: (YN TROELLI ELIN) Yn uwch ac yn uwch.

MAE'R DDAU YN TROELLI YN GYNT A CHYNT.

ELS: Nes bod pawb arall yn diflannu.

WES: Yn uwch ac yn uwch. Allan o'r twll 'ma.

MAEN NHW'N CWYMPO'N UN SWP.

ELS: (WEDI BRIFO) Awtsh! Awtsh!

WES: Sori!

ELS: Ma' isie i rywun stico *health warning* arnat ti!

WES: *Yeah?*

ELS: Awtsh!

WES: Sori Els!

SAIB. MAE'N EI HASTUDIO HI.

Mermaids yn beryglus 'fyd! Nag 'yn nhw?

ELS: Beth?

WES: Ffit! Gwneud i fois grasho'u cychod.

ELS: Beth?

WES: Cychod! Ar y creigie!

ELS: O! *Yeah*. OK.

WES: Ti'n eitha' ffit!

ELS: (YN PRYFOCIO) Eitha'?

WES: Ok! *Dead fit!* Dere 'ma.

MAEN NHW'N CUSANU, WES O DDIFRI, OND MAE ELS
YN TYNNU I FFWRDD.

ELS: Wes, na! Paid! OK?

MAE WES YN COLLI DIDDORDEB YN SYTH.

Ond cyn bo hir *though*. (YN EDRYCH O'I CHWMPAS) Rhywle
gwell.

WES: (YN FRWDFRYDIG) *Yeah?* (CURIAD) Galla i gael benthyg car
rywbryd os ti isie.

ELS: Beth?

WES: Car rili cŵl. (CURIAD) Mynd â ti rhywle.

ELS: *Yeah right!*

WES: Rhywle gwell! Fyddet ti'n dod 'da fi?

ELS: Ti ffili dreifo.

WES: Na?

ELS: (WEDI CAEL SIOC) Beth?

WES: Fyddet ti'n dod 'da fi?

ELS: Dwi'm yn gwybod! Wyt ti'n dreifo?

WES: 'Se ti'n dod 'da fi? Os o'n i?

ELS: Falle!

WES: Cŵl.

ELS: Ti'n cŵl. (CURIAD) Dwi'n dy garu di.

WES: *Yeah?*

ELIN: Ac?

SAIB. DYDY WES DDIM YN YMATEB.

(YN BENDERFYNOL) Ti'n fy ngharu i 'fyd!

WES: *Yeah?*

ELS: Dwi'n gwybod dy fod ti.

WES: *Yeah?*

ELS: *Yeah.* Ma' merched yn gwybod y pethe hyn nag y'n ni?

CERDDORIAETH. SŴN FFREUTUR YR YSGOL. MAE RHYS
AC ELS YN BWYTA RHOLIAU.

RHYS: Sut ti'n gwybod?

ELS: Fi jyst yn gwybod. OK? (AM EI RÔL) Ti mo'yn hwn?

RHYS: (YN FRWD) *Yeah!*

MAE RHYS YN GWTHIO'R DDWY RÔL I'W GEG.

ELS: Rhys!

RHYS: (CURIAD) Betia i fod o 'di ca'l *loads* o ferched.

ELS: Nag yw ddim. A ta beth, ma' hyn yn wahanol. OK?

SAIB

Pam o't ti'n hwyr bore 'ma?

RHYS: Tractor.

ELS: Beth?

RHYS: Ar y *wibbly wobbly way*.

ELS: Beth?

RHYS: 'Na be ma' Jen yn galw'r ffordd o'n tŷ ni.

ELS: O. (CURIAD) Licien i ga'l chwaer.

RHYS: I be? (CURIAD) Dim lle i basio nag oes.

ELS: Ar y *wibbly wobbly way*?

RHYS: *Yeah. Racing track* Dad ma' Mam yn 'i alw fo.

ELS: (YN GWENU) Ife?

MAE RHYS YN GWNEUD SŴN CAR YN TEITHIO’N
GYFLYM.

RHYS: Ti ’di gweld dad fi’n dreifio? *Brilliant. 0 to 60 in a chwinciad*
chwanen.

ELS: *In a chwinci chwhat?*

RHYS: *G-force yn hitio’i wynab o, fel’ma! (FEL SYLWEBYDD RASIO) And*
he’s on two wheels on the first bend.’

ELS: Nag yw ’na’n beryglus?

RHYS: Na! Does na’m byd arall ar y lôn fel arfer nag oes? Ond *twenty miles an*
hour all the way bore ’ma tu ôl i’r Ffyrgi! (CURIAD) O’dd Dad yn
rhoid *loads o abuse* i’r dreifar!

ELS: O’dd e?

RHYS: *Yeah. Ffarmwr lawr lôn! Doedd dim ots gan Dad. (BALCH) Road*
Rage! It’s a wonderful thing.

SAIB.

So be sy gynno fo sy gen i ddim?

ELS: Pwy? Dy dad?

RHYS: O! Ych! *Gross* Els. Naci! – Wesley!

ELS: Corff *sexy!*

RHYS: *Cow!*

ELS: Sori!

RHYS: *You will be!* Pan dwi’n gyfreithiwr ac mae o ar *benefits!*

ELS: O ca' dy ben. Fydd Wes ddim ar *benefits*.

RHYS: Na?

ELS: Ma' fe jyst mor glefer â ti!

RHYS: Dim arian. Pa mor *sexy* 'di hynna? E?

ELS: O *shut up!*

RHYS: Neu ella fydd o'n y carchar!

ELS: Fydd Wes ddim yn y carchar. Ti'm yn gwybod dim byd amdano fe. Ma' fe 'di cael amser caled.

RHYS: *Yeah, so?*

ELS: Ca'l 'i symud o un lle i'r llall drwy'r amser.

RHYS: *So?*

ELS: Fi'n hapus 'da fe.

RHYS: (YN SYMUD EI FOL FEL BOLDDAWNSFERCH, ER MAWR
SYNDOD I ELIN.) *bellydance* Wyt ti?

ELS: (YN GWYLIO RHYS) Ry'n ni'n deall ein gilydd.

RHYS: *How come?* (CURIAD. AM EI FOL) Ma' gynno fi *flat-pack!*

(YN DDRYSLYD)

ELS: *What?*

RHYS: (YN CODI EI GRYS) Ti isio'i weld o?

ELS: *Six-pack* Rhys!

RHYS: Dwi'n gwbod! (YN SYMUD EI FOL) Riplo!

- ELS: O paid â bod mor *disgusting*! Rho fe i gadw!
- RHYS: Digon teg *Chocolate Chip*!
- ELS: (CURIAD) Fi'n gallu ymlacio pan dwi 'da fe. Ma' fe'n deall shwt ma' pethe'n gallu bod 'da rhieni.
- RHYS: *Yeah?* (CURIAD) Ydy o 'di bod yn eich tŷ chi?
- ELS: Na! Dyw e ddim isie.
- RHYS: O.
- MAE RHYS YN YMARFER SYMUDIAD IOGA.
- ELS: (YN GWYLIO RHYS MEWN SYNDOD) Pam fydde fe?
- RHYS: *Yeah!*
- ELS: Rhys, beth wyt ti'n 'neud?
- RHYS: Ioga!
- ELS: *Whatever!* Eniwe, bydde Mam a Dad yn stopo fi 'i weld e os bydde fe'n galw.
- RHYS: Achos 'i fod o'n seico?
- ELS: Nage!
- RHYS: Ffrîc?
- ELS: Na! Ca' dy ben. Dyw e ddim OK? (CURIAD) Dy'n nhw ddim isie i fi ga'l bywyd, 'na pam.
- RHYS: 'Life starts after arholiadau', Elin!

ELS: Tasen nhw'n gallu fy *fast forwardio* fi bum mlynedd, bydden nhw'n 'neud 'ny.

RHYS: *Yeah. Pubes, acne, plus* rhieni sy'n colli'r plot. Grêt bod oed ni dydi?

ELS: Sdim byd yn bwysig i Mam a Dad, dim ond beth dwi'n mynd i'w wneud pan fi'n tyfu lan.

RHYS: Beth wyt ti'n mynd i'w 'neud?

ELS: O Rhys! *Shut up!* Ti fel hen fenyw!

RHYS: *Sexist.*

ELS: Cau dy ben. Dwi'm yn gwybod 'to, ydw i?

RHYS: Maen nhw i gyd 'run fath Els.

ELS: *No way!* Ma' fy rhieni fi'n wa'th na rhieni pawb arall 'da'i gilydd.

RHYS: Maen nhw i gyd 'run fath dwi'n deud 'tha ti! *Fortysomethings!* Wedi'u rhaglennu i fod yn boen. *Clones.*

ELS: Ond ti'n OK 'da'r holl beth nag wyt ti?

RHYS: *Yeah* am wn i.

ELS: Ti'n lwcus. Ti byth yn mynd i 'neud dim byd o'i le wyt ti?

RHYS: Yn ôl pob tebyg!

ELS: Ti byth am siomi neb.

RHYS: Els! Be sy?

SAIB.

ELS: Dwi'n gadael ar ôl eleni.

RHYS: (MEWN SYNDOD) Be? *No way!*

ELS: Fi 'di ca'l llond bol.

RHYS: Gadael ysgol? Ers pryd? *No way. No way!*

CERDDORIAETH.

SWN IARD YSGOL.

MAE RHYS AR EI BEN EI HUN, YN BWYTA CREISION, TRA
BO WES AC ELIN YN SIARAD.

ELS: *No way* Wes OK?

WES: Dim yn ddigon da i ti ydw i?

ELS: Wyt!

WES: Ni'n rhy wahanol.

ELS: Nag y'n! (YN GWELD RHYS) Haia!

WES: (WRTH RHYS. YN FYGYTHIOL) *Get lost!*

MAE RHYS YN GADAEI AR FRYD.

(WRTH ELS) *fyddwn i* Fyddwn i ddim yn ffitio mewn fyddwn i?

ELS: Byddet.

WES: Wel gad fi ddod draw *then.*

ELS: I beth?

WES: I gwrdd â'r teulu!

ELS: *No way!* Pam?

WES: Dwi jyst isie.

ELS: I beth?

WES YN CODI'I YSGWYDDAU.

Fi'n gorfod adolygu heno, neu byddan nhw'n dechre arna i 'to.